

# NEWYDDLLEN

## Diwygio Etholiadol



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Rhifyn 13

Mawrth 2021

### Gorchymyn Taliadau Swyddogion Canlyniadau, Rheoliadau Cyfrifon ac Indemniad 2021

Daeth Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2021 ("y Gorchymyn") a Rheoliadau Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2021 ("y Rheoliadau") i rym ar 19 Mawrth. Bydd y Gorchymyn yn pennu'r uchafsymiau y gall swyddogion canlyniadau etholaethau a swyddogion canlyniadau rhanbarthol eu hawlio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynnal etholiad Senedd 2021. Mae'r Rheoliadau'n nodi sut a phryd y dylai swyddogion canlyniadau gyflwyno eu cyfrifon etholiadol er mwyn cael yr arian y darperir ar ei gyfer yng Ngorchymyn 2021.

Ar gyfer 2021, mae'r arian a ddarperir i swyddogion canlyniadau yn cynnwys taliad ar gyfer 'gweinyddwyr etholiadol' sy'n cynnwys y swyddog canlyniadau, eu dirprwyon, a swyddogion y cyngor ac mae'n disodli'r ffi bersonol flaenorol a dalwyd i swyddogion canlyniadau.

Drwy'r Gorchymyn, darparwyd cyllid ychwanegol i gwmpasu'r ystod o gyfarpar sydd ei angen i sicrhau bod iechyd staff a'r cyhoedd yn cael eu hamddiffyn. Mae hyn yn cynnwys offer diogelu personol, adnoddau cadw pellter cymdeithasol, deunyddiau glanhau a staff ychwanegol i reoli'r polau.

Cyhoeddwyd Julie James AS, Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol datganiad ysgrifenedig ar y Gorchymyn ar 22 Mawrth 2021 a dywedodd, "*Rydym i gyd yn ymwybodol pa mor anodd fu parhau â swyddogaethau angenrheidiol awdurdodau lleol dros y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw gweinyddwyr etholiadol a swyddogion canlyniadau yn eithriad i hyn ac maent wedi bod yn gweithio'n ddiflino mewn amgylchedd heriol sy'n newid yn barhaus i baratoi ar gyfer yr etholiadau hyn a chynnal hyder y cyhoedd yn ein democratiaeth. Rwyf yn ddiolchgar iawn iddynt am eu hymdrechion.*"

[Datganiad Ysgrifenedig: Gorchymyn Senedd Cymru \(Taliadau Swyddogion Canlyniadau\) 2021 \(22 Mawrth 2021\) | LLYW.CYMRU](#)

Bydd ffurflen hawlio a nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer eich cyfrifon etholiad yn cael eu hanfon atoch yr wythnos hon. Rydym yn argymhell eich bod yn darllen y nodiadau cyfarwyddyd yn ofalus ac mae croeso i chi gysylltu â ni gydag unrhyw Ymholiadau drwy'r flwch post Etholiadau. Mae'n rhain cyflwyno eich cyfrifon o fewn chwe mis o'r etholiad.

## Isetholiadau gohiriedig

O 1 Mawrth gall isetholiadau a ohiriwyd o ganlyniad i bandemig Covid-19 aildddechrau. Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallai Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol roi gwybod i ni pryd rydych yn bwriadu cynnal eich is-etholiadau, os nad ydych chi wedi yn barod, drwy gysylltu â blwch post yr etholiadau.

## Adnoddau Cyfathrebu ac Allgymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer grwpiau anodd eu cyrraedd

Mae ymgyrch genedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n annog ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad â democratiaeth Cymru bellach yn fyw. Yn dilyn y newyddlen etholiadol ddiwethaf, mae'r pecyn cymorth i randdeiliaid bellach ar gael yn:

<https://wales.assetbank-server.com/assetbank-wales/images/assetbox/73720397-07c3-4c1b-9dd7-d027538de2f5/assetbox.html>

## Profion Llif Unffordd i Staff

Mae'r [Canllawiau i bobl sy'n ymgymryd â gweithgareddau ymgyrchu etholiadol yng Nghymru yn ystod y pandemig](#) wedi'u diweddarau yn dilyn diwedd y cyfyngiad "aros yn lleol".

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cadarnhau ei safbwynt ar brofion dyfeisiau llif unffordd (DLIU) ar gyfer staff etholiadau mewn llythyr gan y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol at Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol. Cynhwyswyd profion DLIU fel ffordd o liniaru risg yn y [cyngor](#) ar y cyd a ddarparwyd gan y Cell Ymgynghorol Technegol a'r Prif Swyddog Meddygol. Trafodwyd y mater gan Y Grŵp Cyngori a Blaenoriaethu Clinigol ar gyfer Profion a'r farn glir oedd na ddylai fod angen cynnal profion DLIU ar gyfer yr etholiad, gan na fyddai'r budd ychwanegol y tu hwnt i'r paratodau sydd eisoes yn cael eu gwneud yn cyfiawnhau'r ymdrech sydd ei hangen i drefnu profion a'r risgiau a allai greu. Cytunodd y Grŵp y gallai fod yn rhesymol gweithredu profion DLIU, pe bai swyddog canlyniadau yn cael ei gynghori i'r perwyl hwn gan dîm rheoli digwyddiadau lleol neu ranbarthol.

Disgwylir i adolygiadau pellach o dan adran 15 o Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) gael eu cwblhau erbyn 2 Ebrill a 23 Ebrill.

## Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Post Brenhinol

Mae'r CLG gyda'r Post Brenhinol ar gyfer dosbarthu deunydd etholiadol ymgeiswyr wedi'i lofnodi gan Lywodraeth Cymru a'r Post Brenhinol.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am dalu'r costau postio ar gyfer ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol cofrestredig o dan Erthygl 65 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, sy'n darparu bod gan ymgeiswyr yr hawl i anfon un darn o gyfathrebiad etholiadol yn rhad ac am ddim. Gallant anfon naill ai un darn o gyfathrebu a gyfeirir at bob etholwr neu un eitem gyfathrebu heb ei gyfeirio'n bersonol at aelwyd.

Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod cyfyngiad penodol ar gyfathrebiadau etholiadol yr ymgeiswyr a'r pleidiau gwleidyddol ac mae hefyd yn nodi bod yn rhaid i'r gwasanaeth gael ei ddarparu gan ddarparwr gwasanaeth cyffredinol.

Yr unig ddarparwr gwasanaeth cyffredinol sy'n gallu bodloni'r gofyniad hwn yw'r Post Brenhinol.

## Taliad Grant ar gyfer Llythyr Hysbysu Cartrefi

Mae'r taliadau grant i ariannu llythyr hysbysu cartrefi ychwanegol wedi'u gwneud ac mae cynllun y Grant Diwygio Etholiadol bellach wedi dod i ben. Bydd adolygiad o'r cynllun grant yn cael ei gynnal erbyn hydref 2021 pan fyddwn yn gofyn i weinyddwyr etholiadol adrodd ar eu gwariant.



## Deddfwriaeth ar gyfer Etholiad y Senedd 2021

Cafodd Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 Gydsyniad Brenhinol ar 16 Mawrth a daeth i rym ar 17 Mawrth. Gellir ei weld yn:

<https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/2/contents>.

Dim ond i'r etholiad cyffredinol cyffredin sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2021 y mae'r Ddeddf yn gymwys ac ni fydd yn gymwys i unrhyw etholiadau dilynol i'r Senedd. Mae hefyd yn ymateb i beryglon posibl coronafeirws drwy alluogi is-etholiadau llywodraeth leol i gael eu gohirio y tu hwnt i 6 Mai 2020 os oes angen. Yn benodol, mae'r Ddeddf yn rhoi mecanwaith ar waith i ohirio dyddiad y bleidlais ar gyfer etholiad Senedd 2021 am hyd at chwe mis am reswm sy'n ymwneud â choronafeirws. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer cyfnod diddymu byrrach i'r Senedd cyn yr etholiad er mwyn galluogi'r Senedd i gytuno i bennu dyddiad newydd ar gyfer y bleidlais os oes angen gwneud hynny yng ngoleuni'r pandemig ac amgylchiadau sy'n esblygu'n gyflym.

Gwnaed Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021 ar 17 Mawrth a daeth i rym ar 18 Mawrth. Er mwyn parhau i gael effaith, roedd yn ofynnol iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd o fewn 28 diwrnod a gwnaeth y Senedd hyn ar 24 Mawrth. Gellir ei weld yn:

<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2021/335/contents/made>.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud newidiadau technegol i'r dyddiad cau terfynol ar gyfer cyflwyno papurau enwebu (4.00pm ar y bedwaredd ddiwrnod ar bymtheg cyn y diwrnod pleidleisio) a'r ffurflen cyfeiriad cartref ar gyfer ymgeiswyr sy'n byw y tu allan i Gymru.

Yn unol â'r Ddeddf, gosododd Llywodraeth Cymru ddatganiad gerbron y Senedd ar 24 Mawrth ([Datganiad Ysgrifenedig: Amseriad etholiad cyffredinol arferol y Senedd 2021 \(19 Mawrth 2021\) | LLYW.CYMRU](#)) yn nodi canlyniadau'r ail adolygiad o'r paratodau ar gyfer cynnal y bleidlais ar 6 Mai a dod i'r casgliad, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael, mai bwriad cadarn Llywodraeth Cymru bryd hynny oedd cynnal yr etholiad ar 6 Mai yn ôl y bwriad. Cynhelir adolygiadau pellach erbyn 2 a 23 Ebrill.

## Canllawiau Ymgyrchu

Yn unol ag adran 9 o Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 mae canllawiau wedi'u cyhoeddi ar gyfer y rhai sy'n ymgymryd â gweithgareddau ymgyrchu etholiadau at ddibenion etholiad 2021.

[Canllawiau i bobl sy'n ymgymryd â gweithgareddau ymgyrchu etholiadol yng Nghymru yn ystod pandemig y coronafeirws | LLYW.CYMRU](#)